Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Parcyrhun**

**Ysgol Gynradd Parcyrhun**
**Ffordd Villiers**
**Rhydaman**
**SA18 3HB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

30/06/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Parcyrhun

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Person cofrestredig | Helen Palmer |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy. Fodd bynnag, mae lleoedd wedi'u hariannu ar gael. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae’r plant yn hyderus ac yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yng Nghylch Meithrin Parcyrhun. Mae ganddynt ymdeimlad braf o berthyn ac maent yn datblygu cydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol. Mae gan y plant ddewis da ac maent yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau ei wneud. Mae rhyngweithiadau’r plant yn gynnes, ac maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu, gan ffurfio perthynas glòs â'r staff.

Mae bron pob aelod o’r staff yn deall yn llwyr ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i gadw’r plant yn ddiogel. Mae'r staff yn garedig tuag at y plant ac yn darparu rhyngweithiadau cadarnhaol i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn hapus. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn, ac maent yn asesu galluoedd y plant, gan ddarparu gweithgareddau sy'n hybu annibyniaeth a chynnydd unigol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Mae mannau chwarae dan do ar gael i'r plant ac ardal a gaiff ei rhannu y tu allan. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gael mynediad at ystod dda o adnoddau priodol i'w hoedran, gan ysgogi eu dychymyg a'u diddordeb.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn ei reoli'n gymharol dda. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda. Nid yw'r system ar gyfer goruchwylio ac arfarnu’r staff yn cael ei gweithredu'n llawn.

Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae’r plant yn hapus, yn datgan brwdfrydedd, ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae'r plant yn gyfarwydd â'i gilydd ac mae ganddynt ffrindiau. Maent yn chwarae’n hapus gyda'i gilydd neu ymysg ei gilydd. Er enghraifft, mae llawer o sgwrsio i'w gael wrth i'r plant gymryd rhan mewn gweithgaredd gyda'r clai chwarae dan do. Mae'r rhan fwyaf o’r plant yn siarad neu fynegi eu hunain yn hyderus, gan gyfleu eu hanghenion mewn amryw o ffyrdd, ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol. Caiff y plant gyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain – er enghraifft, dewis pa weithgareddau i'w gwneud a gyda phwy yr hoffent eistedd yn ystod amseroedd byrbryd. Yn ystod yr ymweliad, dewisodd y plant frechdanau a byrbrydau eraill yn hyderus yn ystod picnic tedi bêrs.

Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn gwybod y drefn yn dda. Maent yn golchi eu dwylo ar amserau addas ac yn helpu i dacluso teganau a’u rhoi i gadw ar ôl gorffen chwarae â nhw. Mae gan y plant berthynas glòs â'r staff ac maent yn mwynhau eistedd yn agos atynt yn ogystal ag ar eu glin yn ystod amser gweithgareddau.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad o'u chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd ac yn symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Mae'r plant yn cymryd rhan ac yn canolbwyntio ar weithgareddau a ddewisir ganddynt ac mewn tasgau a arweinir gan staff am gyfnodau priodol o amser - er enghraifft, peintio yn yr awyr agored.

Caiff y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus – er enghraifft, defnyddio'r gris i fynd at y sinc i olchi eu dwylo yn ogystal â thacluso eu platiau a'u cwpanau ar ôl byrbryd. Mae'r plant yn cael ymdeimlad o falchder o'u cyflawniadau, ac yn gwenu wrth dderbyn canmoliaeth gan y staff.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae bron pob aelod o staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol yn llwyr ac yn eu gweithredu. Maent yn dilyn polisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg ac yn eu gweithredu. Maent yn dilyn arferion glanhau trylwyr – er enghraifft, maent yn glanhau'r bwrdd cyn amser bwyd. Mae arferion golchi dwylo yn digwydd yn drylwyr ac yn aml, gyda'r staff yn annog y plant neu'n eu cefnogi i wneud yn yr un modd. Mae'r staff sy'n paratoi bwyd yn gwisgo ffedog a menig. Ni welsom bob aelod o staff yn gwisgo ffedog a menig wrth iddynt gynorthwyo'r plant yn ystod amser bwyd.

Mae gan yr holl staff hyfforddiant cyfredol mewn amddiffyn plant a chymorth cyntaf. Maent yn cofnodi cofnodion perthnasol o ran damweiniau a digwyddiadau; fodd bynnag, mae llofnodion rhai rhieni a staff ar goll. Mae trafodaethau gyda staff yn dangos eu bod yn deall yr angen am arferion diogelu da. Nid yw'r staff yn dilyn y weithdrefn newid cewynnau fel yr amlinellir yn y polisi bob amser.

Mae bron pob aelod o staff yn gymwys, ac maent yn gofalu am y plant yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Maent yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson fel bod y plant yn gwybod beth yw'r disgwyliadau. Maent yn canmol er mwyn atgyfnerthu ymddygiad da. Ni welsom unrhyw blentyn yn camymddwyn. Mae'r staff yn ymatebol ac yn gadarnhaol gyda'r plant yn gyson. Maent yn gwrando ar farn y plant ac yn rhyngweithio â'r plant gyda chynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion gan ddefnyddio iaith gadarnhaol ac yn eu hannog i fod yn gwrtais a dweud *"os gwelwch yn dda"* a *"diolch"*. Mae’r staff yn creu cyfnodau cymdeithasol i'r plant, gan gynnwys amser bwyd, ac maent yn dangos esiampl i'r plant gan eu bod yn siarad yn garedig ac yn parchu ei gilydd.

Mae'r staff yn cytuno ar thema ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n addas i'r plant. Maent yn sicrhau bod meysydd dysgu a sgiliau yn cael eu hymgorffori yn y gwaith cynllunio. Mae'r staff yn asesu cynnydd y plant, a gwelsom fod targedau'r plant yn cael eu harddangos. Fodd bynnag, roedd rhai targedau a osodwyd yn gyffredinol ac nid oeddent yn benodol iawn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn a'u bod yn gweithio'n dda fel rhan o'r tîm. Mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau megis cyfrif ac wrth eu canmol neu roi cyfarwyddiadau.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod mesurau diogelwch trylwyr ar waith. Mae mynediad i'r lleoliad ac oddi yno yn ddiogel ac mae'r plant yn ddiogel oherwydd ni all neb ddod i mewn i’r lleoliad nac allan ohono heb i aelod o staff ganiatáu hynny. Mae'r staff hefyd yn cadw rhestr o'r rhai sy'n ymweld â'r cylch meithrin. Mae'r holl wiriadau diogelwch o ran yr offer yn gyfredol. Roedd y person â chyfrifoldeb wedi rhoi asesiadau risg ar waith yn ystod yr ymweliad arolygu, gan gynnwys mesurau COVID-19. Mae ardal fach ar gyfer paratoi bwyd sy'n cael ei chadw'n lân ac yn daclus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod trefniadau glanhau trylwyr ar waith i gynnal arferion hylendid a dulliau rheoli heintiau da. Cynhelir ymarferion tân, a chedwir cofnod o'r rhain.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fynediad i iard awyr agored a gaiff ei rhannu er mwyn darparu man dysgu a chyfleoedd i blant archwilio. Caiff adnoddau eu cludo allan ar gyfer pob sesiwn a rhaid eu clirio ar ddiwedd pob sesiwn gan ei bod yn ardal a gaiff ei rhannu. Yn ystod yr ymweliad, rhoddodd y staff gyfleoedd i'r plant chwarae'n gorfforol, gan gynnwys chwarae â theganau reidio, defnyddio trawstiau cydbwyso, chwarae creadigol gyda phaent, a chyfleoedd i wneud marciau gyda sialc, ynghyd â'r cyfle i eistedd ac edrych ar gasgliad o lyfrau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol i'w datblygiad ac mewn niferoedd digonol er mwyn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth a dewis da. Maent yn darparu adnoddau ysgogol ar gyfer pob oedran a chyfnod datblygiad er mwyn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol trwy chwarae adeiladu a thrwy weithgareddau synhwyraidd, byd bach a chwarae rôl. Gall y plant gael mynediad hawdd i'r teganau ac adnoddau, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
| --- | --- |

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i wneud gwelliannau parhaus ac maent yn rheoli ac yn rhedeg y gwasanaeth mewn modd brwdfrydig. Mae datganiad o ddiben cynhwysfawr ar gael. Fodd bynnag, gan fod yna newidiadau wedi bod yng nghanllawiau COVID-19, roedd angen ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r arferion cyfredol.

Mae bron pob aelod o’r staff yn ymgorffori polisïau’n effeithiol wrth redeg y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn briodol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu lleoli mewn modd trefnus er mwyn i gymarebau staffio ac anghenion y plant gael eu diwallu'n llawn. Cadarnhaodd yr aelodau staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau a bod polisi drws agored yn bresennol os bydd unrhyw faterion yn codi. Nid yw perfformiad yn cael ei reoli yn effeithiol bob amser. Mae'r staff yn cael goruchwyliaeth ac arfarniadau un i un; fodd bynnag, nid yw'r uwch-aelodau o staff wedi bod yn cael eu goruchwylio na'u harfarnu yn rheolaidd. O ganlyniad, nodir hyn fel maes i'w wella a byddwn yn dilyn trywydd hwn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr i ddiogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod yr holl staff yn cael gwiriadau addasrwydd cyfredol. Maent yn darparu gweithdrefn sefydlu dda ar gyfer staff newydd, ac maent yn hyrwyddo hyfforddiant parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae adolygiad cyflawn o ansawdd y gofal ar waith, sy'n ystyried barn defnyddwyr y gwasanaeth ac yn nodi ffyrdd ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn cydweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn arwain y plant yn briodol. O ganlyniad, mae’r plant wrth eu boddau â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig.

Mae'r partneriaethau yn ddigonol. Mae rhieni'r plant sy'n defnyddio'r lleoliad hwn yn dweud wrthym fod y staff yn ofalgar ac yn garedig. Mae'r rhieni'n canmol y gwasanaeth, ond dywedasant wrthym nad ydynt yn cael llawer o wybodaeth am ddatblygiad eu plant, heblaw am adroddiad diwedd blwyddyn wrth iddynt bontio i'r ysgol gynradd. Dywedasant wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal a'u bod yn teimlo ei bod yn hawdd iawn mynd at y staff.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A!: Bod y cofnodion damweiniau yn cael eu llofnodi gan y staff a rhieni/gofalwyr

A2: Bod y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau yn y canllawiau

A3: Bod y staff yn dilyn pob polisi a gweithdrefn yn llym – er enghraifft, y polisi newid cewynnau

A4: Bod y staff yn darparu targedau penodol i'r plant – er enghraifft, adnabod ac enwi rhif penodol

A5: Bod y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gyson yn ystod amser bwyd

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Cafodd cydymffurfedd ei adolygu yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Dim tystiolaeth o sesiynau goruchwylio neu arfarniadau ar waith ar gyfer yr aelodau staff na'r person â chyfrifoldeb. | Newydd |
| 29(3)(a) | Dim sesiynau goruchwylio nac arfarniadau ar gyfer y person â chyfrifoldeb. | Cyflawnwyd |
| 28 (2) (a) [ii] | Ffeiliau staff heb eu cwblhau | Cyflawnwyd |
| 15(1)(e) | Datganiad o ddiben ddim yn unol â'r rheoliadau | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

Dyddiad cyhoeddi 24/08/2022